

TGAU



TGAU CBAC ASTUDIO'R CYFRYNGAU

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2017 i'w ddyfarnu
o 2019

Fersiwn 5 Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	27
3	Rhaid llwytho gwaith cynhyrchu i fyny fel e-bortffolio.	26
4	Mae Jurassic World wedi disodli Harry Potter fel enghraifft o fasnachfaint ffilmiau Hollywood cyfoes ar gyfer Uned 2, Adran B.	16
	Mae canllawiau cyflwyno Uned 3 wedi'u diweddarau i gynnwys arweiniad ar yr opsiwn print cylchgronau.	21
	Newid geiriad ym mharagraff 3.	22
5	Newidiwyd geiriad tudalen 2 'Adran A' i gynnwys sôn am un cynnyrch a astudiwyd gan ddysgwyr yn yr un ffurf cyfryngau'.	2, 13
	Ychwanegwyd 'nad yw wedi'i weld o'r blaen' at ddisgrifydd pwynt bwled Asesu Uned 1.	
	Newidiwyd geiriad y canllawiau ynghylch cylchgrawn print yn Ymchwil a Chynllunio. Canllawiau cylchgrawn print bellach o dan 'Ymchwil'.	21



TGAU CBAC mewn ASTUDIO'R CYFRYNGAU

I'w addysgu o 2017

I'w ddyfarnu o 2019

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2017.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesu	2
1. Rhagarweiniad	5
1.1 Nodau ac amcanion	5
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	6
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	6
1.4 Bagloriaeth Cymru	7
1.5 Persbectif Cymreig	7
2. Cynnwys y pwnc	8
2.1 Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau	10
2.2 Uned 2: Deall Teledu a Ffilm	14
2.3 Uned 3: Creu Cyfryngau	18
3. Asesu	24
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	24
3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad	25
4. Gwybodaeth dechnegol	27
4.1 Cofrestriadau	27
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	27
Atodiad A: Uned 3: Grid Asesu Creu'r Cyfryngau a chanllawiau marcio	28

TGAU ASTUDIO'R CYFRYNGAU (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster

60 marc

Adran A: Cynrychioliadau – hysbysebu, gemau fideo a phapurau newydd

Bydd yr adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **gynrychioliad** rhywedd a digwyddiadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r ffurfiau cyfryngau a astudiwyd – hysbysebu, gemau fideo a phapurau newydd.

- **Un** cwestiwn mewn camau yn seiliedig ar ddeunydd adnoddau seiliedig ar brint nad yw wedi'i weld o'r blaen yn ymwneud â hysbysebu, gemau fideo **neu** gylchgronau ac un cynnyrch mae dysgwyr wedi'i astudio yn yr un ffurf cyfryngau.

Adran B: Cerddoriaeth

Bydd yr adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd**.

- **Un** cwestiwn mewn camau a **dau** gwestiwn unigol.

Uned 2: Deall Teledu a Ffilm
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster

60 marc

Adran A: Cymru ar y Teledu

Bydd yr adran hon yn asesu gwybodaeth am **ddiwydiannau'r cyfryngau, cynulleidfaoedd, iaith y cyfryngau a chynrychioliad**.

- **Un** cwestiwn mewn camau yn seiliedig ar gynnyrch 'Cymru ar y Teledu' a ddewiswyd gan y ganolfan. Mae rhan olaf y cwestiwn hwn yn gofyn am ateb estynedig lle bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu.

Adran B: Ffilmiau Hollywood Cyfoes

Bydd yr uned hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **ddiwydiannau'r cyfryngau, cynulleidfaoedd ac iaith y cyfryngau**.

Un cwestiwn mewn camau a **dau** gwestiwn unigol.

Uned 3: Creu Cyfryngau
Asesu di-arholiad
40% o'r cymhwyster

80 marc

- Cynhyrchiad y cyfryngau, gan gynnwys ymchwil a chynllunio **unigol**, i'w greu mewn ymateb i **ddewis o friffiau a osodir gan CBAC**, ac yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol.
- Dadansoddiad myfyriol **unigol** o'r cynhyrchiad.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael yng nghyfres yr haf bob blwyddyn. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2019.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/1165/3

Trosolwg o'r Fanyleb – Unedau Arholiad

Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau

Adran	Ffuriau a astudir yn fanwl	Ffuriau eraill a astudir	Cynhyrchion y cyfryngau a astudir	Cysyniadau allweddol a astudir
Adran A: Cynrychioliadau – Hysbysebu, Gemau Fideo a Phapurau Newydd		- Hysbysebu - Gemau fideo - Papurau Newydd	- Un hysbyseb print gyfoes - Un hysbyseb print hanesyddol - Un gêm fideo gyfoes - Un papur newydd lleol neu genedlaethol - Y cyfan wedi'u dewis gan yr athro yn dilyn y meini prawf yn y fanyleb	Cynrychioliad
Adran B: Cerddoriaeth	- Cylchgronau - Y cyfryngau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol	- Fideos Cerddoriaeth - Radio	- Dau gylchgrawn cerddoriaeth gyfoes, y ddau yn targedu cynulleidfaoedd gwahanol, ac un o'u gwefannau - Un fideo cerddoriaeth cyfoes ac un fideo cerddoriaeth hanesyddol (cyn 1990) - Dwy raglen radio cerddoriaeth gyfoes (un bennod o bob rhaglen) - Enghreifftiau o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys Facebook a Twitter) ar gyfer un artist neu fand - Y cyfan wedi'u dewis gan yr athro yn dilyn y meini prawf yn y fanyleb	- Iaith y cyfryngau - Cynrychioliad - Diwydiannau'r cyfryngau - Cynulleidfaoedd

Uned 2: Deall Teledu a Ffilm

Adran	Ffuriau a astudir yn fanwl	Ffuriau eraill a astudir	Cynhyrchion y cyfryngau a astudir	Cysyniadau allweddol a astudir
Adran A: Cymru ar y Teledu	Teledu	Y cyfryngau ar-lein	Un rhaglen deledu a ddewiswyd o bedwar opsiwn a osodwyd gan CBAC	- Iaith y cyfryngau - Cynrychioliad - Diwydiannau'r cyfryngau - Cynulleidfaoedd
Adran B: Ffilmiau Hollywood Cyfoes	Ffilm	- Marchnata - Y cyfryngau ar-lein	- Un ffilm masnachfaint Hollywood - Marchnata ar gyfer y ffilm o ddewis, fel posteri, rhaghysbysebion a gwefannau - Y cyfan wedi'u dewis gan yr athro yn dilyn y meini prawf yn y fanyleb	- Iaith y cyfryngau - Diwydiannau'r cyfryngau - Cynulleidfaoedd

Trosolwg o'r Fanyleb – Uned asesu di-arholiad**Uned 3: Creu Cyfryngau**

Ffurf y cyfryngau: opsiynau sydd ar gael	Elfennau i'w cwblhau	Cyfryngau cynhyrchu: opsiynau sydd ar gael
Teledu	Ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol	Opsiynau cyfryngau ar-lein neu glyweledol
Cylchgronau	Ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol	Opsiynau cyfryngau print neu ar-lein
Ffilm	Ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol	Opsiynau cyfryngau print neu glyweledol
Cerddoriaeth	Ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol	Opsiynau cyfryngau print neu glyweledol
Hysbysebu	Ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol	Opsiynau cyfryngau print neu glyweledol

TGAU ASTUDIO'R CYFRYNGAU

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Mae'r cyfryngau yn chwarae rhan ganolog mewn diwylliant a chymdeithas gyfoes. Maent yn llywio ein canfyddiadau o'r byd drwy gynrychioliadau, safbwyntiau a negeseuon y maent yn eu cynnig. Yn ogystal â hynny, maent yn bwysig o ran rhoi ffyrdd i ni gyfathrebu, drwy fynegiant diwylliannol a'n galluogi i gymryd rhan mewn agweddau allweddol ar gymdeithas. Ni ellir cwestiynu pwysigrwydd economaidd y cyfryngau chwaith. Mae diwydiannau'r cyfryngau yn cyflogi nifer fawr iawn o bobl ar draws y byd ac yn gweithredu fel diwydiannau masnachol ar raddfa fyd-eang. Mae natur fyd-eang y cyfryngau cyfoes, ynghyd â datblygiadau technolegol parhaus a mwy o gyfleoedd i ryngweithio gyda'r cyfryngau, yn awgrymu mai dim ond cynyddu y gall y rhan ganolog sydd ganddynt mewn bywyd cyfoes ei wneud.

Mae manyleb TGAU CBAC mewn Astudio'r Cyfryngau yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion allweddol hyn a'r gallu i ddadlau cwestiynau pwysig am y cyfryngau. Mae'n cyflwyno dysgwyr i fframwaith cysyniadol ar gyfer dadansoddi'r cyfryngau, sydd hefyd yn sail i astudio'r cyfryngau ar lefel UG ac Uwch. Er bod y fanyleb yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfryngau cyfoes, mae hyn yn cael ei gyd-destunoli a'i wella drwy archwilio cynhyrchion o gyfnodau hanesyddol gwahanol. Drwy astudio ffurfiau sydd wedi hen sefydlu a ffurfiau sy'n datblygu, bydd dysgwyr yn datblygu eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd a rôl y cyfryngau yn eu bywydau bob dydd.

Mae astudio amrywiaeth o gynhyrchion cyfryngau ysgogol a chyfoethog yn ganolog i'r fanyleb hon, gan weithio o'r tu mewn allan i ddatblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r cyfryngau. Bydd dysgwyr yn defnyddio eu profiad cyfredol o'r cyfryngau, ond hefyd byddant yn ehangu eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth feirniadol drwy astudio cynhyrchion sydd o bosibl yn llai cyfarwydd iddynt, gan gynnwys cynhyrchion ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol.

Mae'r fanyleb hon yn ceisio cynnig ffocws arbennig ar y cyfryngau yng Nghymru, gan ystyried agweddau ar ddiwydiannau'r cyfryngau yng Nghymru, cynhyrchion wedi'u targedu at gynulleidfaoedd Cymreig a chynrychioliadau o Gymru a hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig. Lle bo'n briodol, bydd dysgwyr yn gallu astudio cynhyrchion cyfryngau Cymraeg eu hiaith. Drwy'r dimensiwn Cymreig hwn, bydd dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd economaidd a diwylliannol y cyfryngau yng Nghymru a sut mae hyn yn gysylltiedig â'r cyfryngau y tu hwnt i Gymru.

Mae dewis a hyblygrwydd yn rhan hanfodol o'r fanyleb, gan alluogi athrawon i ddewis y cynhyrchion mwyaf priodol, perthnasol a deniadol i'w dysgwyr astudio yn y ddwy uned arholiad.

Mae'r fanyleb hon hefyd yn cydnabod y berthynas sylfaenol rhwng dealltwriaeth ddamcaniaethol a gwaith ymarferol, gan roi cyfleoedd cyffrous i ddysgwyr ddatblygu sgiliau cynhyrchu cyfryngau. Bydd dysgwyr yn defnyddio ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iaith y cyfryngau a chynrychioliad mewn perthynas â ffurfiau'r cyfryngau a chynhyrchion, a dod yn grewyr ystyr eu hunain. Rhoddir dewis i ddysgwyr o friffiau a ffurfiau i weithio ynddynt, gan eu galluogi i archwilio a mynd ar drywydd eu diddordebau cyfryngau eu hunain.

Mae TGAU CBAC mewn Astudio'r Cyfryngau yn cynnig cwrs astudio eang, cydlynol a deniadol sy'n galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol a sgiliau gwneud penderfyniadau drwy ystyried materion sy'n bwysig, yn real ac yn berthnasol i'r dysgwyr ac i'r byd y maent yn byw ynddo
- datblygu eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd a rôl y cyfryngau yn eu bywydau bob dydd
- datblygu eu sgiliau ymarferol drwy gyfleoedd ymgysylltu personol a chynhyrchu cyfryngau creadigol
- deall sut i ddefnyddio cysyniadau allweddol a therminoleg pwnc benodol arbenigol i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau
- datblygu dealltwriaeth o gynhyrchion y cyfryngau mewn perthynas â'u cyd-destunau yn y diwydiant
- gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain a myfyrio arno.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer cyfnod allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer Astudio'r Cyfryngau naill ai ar lefel UG neu Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol sydd wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk). O ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesu.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r Byd.

2 CYNNWYS Y PWNC

Trosolwg

Lluniwyd manyleb CBAC i gyflwyno dysgwyr i'r cysyniadau allweddol o astudio'r cyfryngau – iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd y cyfryngau – mewn perthynas ag enghreifftiau o amrywiaeth eang o ffurfiau'r cyfryngau. Drwy'r astudiaeth hon, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth dda o sylfeini'r pwnc, gan eu galluogi i gwestiynu ac archwilio yn feirniadol yr agweddau ar y cyfryngau sy'n ymddangos yn gyfarwydd a syml iddynt o'u profiad cyfredol. Mae'r archwilio hwn yn ehangu ymgysylltiad dysgwyr gyda'r cyfryngau i'r hyn sydd llai cyfarwydd, gan gynnwys cynhyrchion o gyfnodau hanesyddol gwahanol a'r rhai hynny sy'n targedu cynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnig cyfleoedd cyfoethog a heriol i ddehongli a dadansoddi.

Mae'r fanyleb yn cydnabod natur aml-lwyfan ar draws gwahanol gyfryngau'r cyfryngau cyfoes, a chanologrwydd llwyfannau ar-lein a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wrth ddosbarthu'r cyfryngau, cael mynediad atynt a chymryd rhan ynddynt. Mewn rhai achosion, amlygir ffurfiau penodol i'w hastudio'n fanwl, ond mae hyn yng nghyd-destun eu perthynas â llwyfannau ar-lein.

Mae astudio agweddau ar y cyfryngau yng Nghymru hefyd yn rhan bwysig o'r fanyleb hon. Bydd dysgwyr yn archwilio amrywiaeth o gynhyrchion y cyfryngau sy'n adlewyrchu'r dimensiwn Cymreig hwn, gan gynnwys y rhai a gynhyrchwyd gan ddiwydiannau'r cyfryngau yng Nghymru, y rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, neu'r rhai sy'n targedu cynulleidfa Gymreig.

Mae dysgu am y cyfryngau yn cynnwys archwilio i gynhyrchion y cyfryngau, a gwneud y cynhyrchion hynny ac mae'r ddau weithgaredd yn berthnasol yn sylfaenol yn y fanyleb hon. Mae dysgwyr yn creu cynhyrchiad y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan ddefnyddio a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am gysyniadau allweddol mewn ymateb i ddewis o friffiau a osodwyd gan CBAC. Mae'r detholiad hwn o ffurfiau yn caniatáu i ddysgwyr fynd ar drywydd eu diddordebau cyfryngau eu hunain a datblygu eu sgiliau ymarferol.

Cysyniadau Allweddol

Mae'r fanyleb TGAU Astudio'r Cyfryngau hon yn seiliedig ar gysyniadau allweddol ar gyfer archwilio a chreu cyfryngau. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar bedair rhan sy'n rhyng-berthnasol:

- **iaith y cyfryngau:** sut mae ffurfiau, codau a chonfensiynau yn creu ystyron
- **cynrychioliad:** sut mae'r cyfryngau yn portreadu digwyddiadau, materion, unigolion a grwpiau cymdeithasol
- **diwydiannau'r cyfryngau:** cynhyrchu a dosbarthu
- **cynulleidfaoedd:** sut mae cynulleidfaoedd yn ymateb i gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac yn rhyngweithio gyda'r rhain.

Mae'r fframwaith yn rhoi dull cyfannol â ffocws i ddehongli a dadansoddi'r cyfryngau, a bydd dysgwyr yn datblygu'r dull hwn wrth iddynt symud ymlaen i astudio'r tair uned.

Mae'r agweddau perthnasol ar gysyniadau'r cyfryngau i'w hastudio mewn perthynas â phob uned wedi'u nodi yn fanwl yn Unedau 1 a 2 (gweler adrannau 2.1 a 2.2).

Ffuriau'r Cyfryngau

Bydd enghreifftiau o holl ffurfiau'r cyfryngau canlynol yn cael eu hastudio:

- teledu
- ffilm
- radio
- papurau newydd
- cylchgronau
- hysbysebu a marchnata
- gemau fideo
- fideos cerddoriaeth.

Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am amrywiaeth eang o ffurfiau a chynhyrchion y cyfryngau, gan roi astudiaeth gynhwysfawr a chytbwys o'r cyfryngau sy'n cwmpasu ffurfiau clyweledol, testun ac ar-lein, yn ogystal ag archwilio'r berthynas rhyngddynt. Yn ogystal â hynny, dylai dysgwyr hefyd astudio amrywiaeth o gynhyrchion gwrthgyferbyniol, gan gynnwys rhai o gyfnodau hanesyddol gwahanol, er mwyn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o ffurfiau'r cyfryngau a rhoi cyd-destun i'r cynhyrchion gosod a astudiwyd.

Sgiliau

Mae'r fanyleb hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau i ddehongli a chreu cynhyrchion y cyfryngau, gan gynnwys dadansoddi, meddwl yn feirniadol, gwneud penderfyniadau, gwerthuso a sgiliau cynhyrchu'r cyfryngau ymarferol.

Mynediad at gyfryngau cymdeithasol

Rhan arwyddocaol o astudio'r cyfryngau cyfoes yw archwilio rôl cyfryngau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r fanyleb yn cynnwys astudio:

- fersiynau ar-lein o bapurau newydd
- marchnata sêr cerddoriaeth ar-lein drwy wefannau neu gyfryngau cymdeithasol
- marchnata a gwylio rhaglenni teledu ar-lein
- marchnata a gwylio ffilmiau ar-lein
- fformatau ar-lein o gemau fideo.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw galluogi mynediad at ddeunydd ar-lein i'w defnyddio'n addysgol, yn briodol a chyfreithlon. Gellir cyflawni hyn mewn sawl ffordd:

- darparu mynediad at yr amrywiaeth uchod o ddeunydd ar-lein mewn amgylcheddau sy'n cael eu monitro'n addas, gan gynnwys ystafelloedd addysgu
- rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am y defnydd cyfreithlon, addysgol o'r cyfryngau ar-lein uchod er mwyn galluogi mynediad yn y cartref
- darparu polisi ar gyfer y defnydd addysgol cyfreithlon o gyfryngau ar-lein ar gyfer pawb dan sylw.

2.1 Uned 1

Ymchwilio i'r Cyfryngau

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster
60 marc

Trosolwg

Mae'r uned hon yn sylfaen bwysig ar gyfer dadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, gan gyflwyno dysgwyr i **iaith y cyfryngau** a **chynrychioliad** drwy astudio amrywiaeth o ffurfiau'r cyfryngau. Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i ddadansoddi ystyron a chynrychioliadau mewn enghreifftiau cyfoes amrywiol o gynhyrchion y cyfryngau. Bydd yr uned hefyd yn cyflwyno dysgwyr i'r cysyniadau o **ddiwydiannau'r cyfryngau** a **chynulleidfaoedd y cyfryngau**.

Rhaid i ddysgwyr astudio enghreifftiau o gynhyrchion y cyfryngau o'r **holl** ffurfiau cyfryngau canlynol:

- hysbysebu, gemau fideo a phapurau newydd
- cylchgronau, fideos cerddoriaeth, radio, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gyfryngau **cyfoes** gan gyfeirio rhywfaint at safbwyntiau hanesyddol (a astudiwyd drwy hysbysebu a fideos cerddoriaeth). Y ganolfan sy'n dewis enghreifftiau o gynhyrchion y cyfryngau. Mae'n rhaid i gynhyrchion cyfoes fod o fewn **deng mlynedd** i ddyddiad dechrau'r cymhwyster.

Dylai dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddefnyddio terminoleg berthnasol sy'n benodol i'r pwnc yn yr uned hon.

Adran A: Cynrychioliadau – Hysbysebu, Gemau Fideo a Phapurau Newydd

Yn Adran A, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae cynrychioliadau rhywedd a digwyddiadau'n cael eu llunio a'u cyfleu drwy brosesau dethol, llunio a chyfryngu mewn perthynas â hysbysebu print, gemau fideo (cloriau blaen gemau a phosteri, nid profiad y gêm ei hun) a phapurau newydd. Bydd dysgwyr yn archwilio safbwyntiau, negeseuon, gwerthoedd a chredoau sy'n sail i'r cynrychioliadau hyn. Drwy astudio hysbysebu print cyfoes a hanesyddol, bydd dysgwyr hefyd yn ystyried sut mae cynrychioliadau rhywedd yn newid dros amser.

Rhaid i ddysgwyr ddadansoddi sut mae **rhywedd** a **digwyddiadau'n** cael eu cynrychioli fel a ganlyn:

Ffurf y Cyfryngau	Hysbysebu Gemau Fideo	Papurau Newydd
Maes Cynrychioliad	Rhywedd	Digwyddiadau
Cynhyrchion	• O leiaf un hysbyseb brint gyfoes yn cynrychioli dynion a menywod • O leiaf un hysbyseb brint hanesyddol (cyn 1990) yn cynrychioli dynion a menywod • O leiaf un hysbyseb brint gyfoes ar gyfer gêm fideo sy'n cynrychioli dynion • O leiaf un hysbyseb brint gyfoes ar gyfer gêm fideo sy'n cynrychioli menywod • O leiaf un clawr gêm cyfoes ar gyfer gêm fideo sy'n cynrychioli dynion • O leiaf un clawr gêm cyfoes ar gyfer gêm fideo sy'n cynrychioli menywod.	• O leiaf un papur newydd lleol neu genedlaethol, gan gynnwys cynrychioliad o o leiaf un digwyddiad.

Atgoffir canolfannau y bydd CBAC yn gweithredu os bydd unrhyw reolau yn cael eu torri o ran y deunydd astudio a ddewisir gan y dysgwyr. Gallai hyn gynnwys rhybuddio canolfan er mwyn tynnu eu sylw at y rheol sydd wedi'i thorri ac osgoi unrhyw achosion o'r fath rhag codi mewn unrhyw gyfresi arholiad yn y dyfodol.

Er mwyn ystyried amrywiaeth addas o gynrychioliadau, mae'n rhaid i'r enghreifftiau a ddewiswyd ar gyfer hysbysebu a gemau fideo gynnwys cynrychioliadau **cyferbyniol**, er enghraifft cynrychioliad sy'n ategu stereoteipiau a chynrychioliad sy'n herio stereoteipiau, neu gynrychioliadau wedi'u targedu at gynulleidfaoedd gwahanol.

Rhaid i gloriau blaen a phosteri gemau fideo a astudir roi cyfleoedd i ddadansoddi sut mae nodweddion testun a nodweddion gweledol yn creu cynrychioliadau o rywedd. Gallai papurau newydd a astudir fod yn seiliedig ar brint neu ar-lein, ond mae'n rhaid iddynt roi cyfleoedd i ddadansoddi sut mae testun a nodweddion gweledol yn creu cynrychioliadau o ddigwyddiadau.

Diffinnir digwyddiadau fel achlysuron allweddol sy'n cael eu cynrychioli yn y newyddion. Gallai enghreifftiau o ddigwyddiadau cenedlaethol gynnwys digwyddiad chwaraeon cenedlaethol, ymweliad brenhinol neu drychineb naturiol. Gallai enghreifftiau o ddigwyddiadau lleol gynnwys gŵyl leol, etholiadau lleol neu fand lleol yn ennill cystadleuaeth. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain ac mae'n bosibl astudio digwyddiadau priodol eraill.

Bydd gofyn i ddysgwyr **gymharu** cynrychioliad rhywedd neu ddigwyddiadau mewn **un** cynnyrch hysbysebu, gêm fideo (cloriau gemau a phosteri) neu bapur newydd y maent wedi'i astudio gydag enghraifft nad ydynt wedi'i gweld o'r un ffurf cyfryngau, a fydd yn cael ei darparu mewn arholiad fel deunydd adnoddau seiliedig ar brint. Gallai deunydd adnoddau seiliedig ar brint gynnwys hysbysebion print, papurau newydd, cloriau gemau fideo neu bosteri.

Rhaid i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agweddau canlynol ar **gynrychioliad** mewn perthynas â ffurfiau'r cyfryngau a astudiwyd:

- sut mae rhywedd a digwyddiadau'n cael eu cynrychioli
- y ffyrdd mae'r cyfryngau yn ail-gyflwyno'r byd (yn hytrach na'i gyflwyno'n unig), ac yn creu fersiynau o realiti
- sut y gellir cynrychioli agweddau ar realiti yn wahanol gan ddibynnu ar ddibenion y cynhyrchwyr
- swyddogaethau a defnyddiau gwahanol stereoteipiau, gan gynnwys dealltwriaeth o sut mae stereoteipiau yn galluogi cynulleidfaoedd i ddehongli'r cyfryngau yn gyflym
- sut a pham y gallai rhai grwpiau cymdeithasol penodol fod wedi'u tangynrychioli neu wedi'u cam-gynrychioli
- sut mae cynrychioliadau yn cyfleu safbwyntiau, negeseuon, gwerthoedd a chredoau penodol, y gellir eu hatgyfnerthu ar draws amrywiaeth o gynhyrchion y cyfryngau
- sut a pham y gallai cynrychioliadau newid dros amser
- sut y gallai cynulleidfaoedd ymateb i gynrychioliadau mewn cynhyrchion cyfryngau, a dehongli'r rhain, gan gynnwys:
 - sut y gallai cynulleidfaoedd ddehongli'r un cynhyrchion cyfryngau mewn ffyrdd gwahanol
 - y ffactorau sy'n effeithio ar ddehongliadau cynulleidfaoedd o gynrychioliadau, gan gynnwys eu profiadau a'u credoau eu hunain, gwahaniaethau unigol a chymdeithasol.

Adran B: Cerddoriaeth

Yn Adran B, bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i iaith y cyfryngau, cynrychioliad, materion cynulleidfa a'r diwydiant drwy astudio cerddoriaeth fel testun. Bydd y testun hwn yn cynnwys archwilio cynhyrchion o bum ffurf y cyfryngau – cylchgronau, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, fideos cerddoriaeth a rhaglenni radio – a chanolbwyntio ar y ffyrdd mae sêr yn cael eu cynrychioli a'u hyrwyddo yn y cynhyrchion hynny. Bydd dysgwyr yn ystyried sut mae iaith y cyfryngau yn creu ystyr ac yn creu delweddau sêr, gan gynnwys sut mae rhywedd ac ethnigrwydd yn cael eu cynrychioli drwy'r delweddau sêr hyn. Drwy astudio fideo cerddoriaeth cyfoes a hanesyddol, bydd dysgwyr hefyd yn ystyried sut mae'r cynrychioliadau hyn yn newid dros amser. Yn ogystal â hynny, bydd dysgwyr yn astudio materion diwydiant a chynulleidfaoedd drwy archwilio:

- sut mae sêr cerddoriaeth yn cael eu hyrwyddo dros y byd
- y cysylltiadau rhwng y diwydiant cerddoriaeth a diwydiannau eraill
- pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau ar-lein i'r diwydiant cerddoriaeth a chynulleidfaoedd/defnyddwyr cerddoriaeth.

Bydd dysgwyr yn astudio'r cynhyrchion cyfryngau canlynol:

- **dau** gylchgrawn cerddoriaeth cyfoes, y ddau yn targedu cynulleidfaoedd gwahanol, ac **un** o'u gwefannau
- enghreifftiau o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys Facebook a Twitter)
 - mewn perthynas ag **un** artist neu fand
 - gan gynulleidfaoedd yr un artist neu'r band, gan ystyried sut maent yn rhyngweithio â'r cyfryngau cymdeithasol
- **un** fideo cerddoriaeth cyfoes ac **un** fideo cerddoriaeth hanesyddol (cyn 1990)
- **dwyt** raglen radio cerddoriaeth cyfoes (un bennod o bob rhaglen).

Drwy astudio'r cynhyrchion hyn, mae'n rhaid i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agweddau canlynol ar **iaith y cyfryngau** a **chynrychioliad**:

- sut y defnyddir iaith y cyfryngau i greu a chyfleu ystyron, gan gynnwys
 - iaith y cyfryngau'n seiliedig ar brint fel dylunio a gosod tudalen, safle a newid maint ffotograffau a delweddau, dylunio a gosod testun, teipograffeg, graffeg a lliw
 - iaith y cyfryngau ar gyfer delweddau symudol fel gwaith camera (pellter, ongl, symudiad), mise-en-scène (gosodiadau, lleoliadau, gwisgoedd, propiau), golygu (golygu dilynol) a sain (sain gynefin, sain anghynefin a sain ôl-gynhyrchu)
 - iaith sain y cyfryngau fel sain lafar a sain ôl-gynhyrchu, gan gynnwys effeithiau sain a cherddoriaeth
 - iaith y cyfryngau ar-lein fel confensiynau dylunio (gosod delweddau/ffotograffau ac iaith, dylunio nodweddion llywio a defnyddio cysylltiadau, graffeg, lliw a dyluniad ffont)
- sut mae dewis (detholiad, cyfuniad ac eithriad) elfennau ar iaith y cyfryngau yn dylanwadu ar ystyr
- codau a chonfensiynau genre
- sut mae dewis elfennau ar iaith y cyfryngau yn creu cynrychioliadau o rywedd (gan gynnwys dynion a menywod), ethnigrwydd a delweddau sêr
- sut mae dewis elfennau ar iaith y cyfryngau yn cyfleu negeseuon a gwerthoedd
- dylanwad technoleg ar gynhyrchion cerddoriaeth.

Yn ychwanegol, mae'n rhaid i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agweddau canlynol ar **ddiwydiannau'r cyfryngau** a **chynulleidfaoedd**:

- perchenogaeth – sefydliadau'r cyfryngau sy'n rhan o'r diwydiant cerddoriaeth
- effaith cydgyfeirio ar y diwydiant cerddoriaeth
- sut mae cynhyrchion cerddoriaeth wedi'u targedu at gynulleidfaoedd
- rôl technolegau'r cyfryngau o ran cyrraedd cynulleidfaoedd, a sut mae cynulleidfa yn defnyddio ac yn gwneud defnydd o gynhyrchion cerddoriaeth.
- sut y gallai cynulleidfaoedd ymateb i gynhyrchion cerddoriaeth a rhyngweithio gyda'r rhain.

Meini prawf ar gyfer dewis cynhyrchion:

- mae'n rhaid i gynhyrchion a ddewisir ar gyfer yr uned hon fod â gofynion priodol ar gyfer TGAU
- felly mae'n rhaid i bob cynnyrch a astudir alluogi dysgwyr i astudio pob agwedd ar iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd fel sydd wedi'i nodi yn y fanyleb uchod

Asesu Uned 1

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu defnydd o derminoleg berthnasol sy'n benodol i'r pwnc yn yr uned hon.

Adran A: Cynrychioliadau – Hysbysebu, Gemau Fideo a Phapurau Newydd (30 marc)

Bydd yr adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **gynrychioliad** mewn perthynas ag **unrhyw** un o ffurfiau'r cyfryngau a astudiwyd ar gyfer yr adran hon: hysbysebu, gemau fideo a phapurau newydd.

Mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau **un** cwestiwn.

- **Un** cwestiwn mewn camau yn seiliedig ar **ddeunydd adnoddau seiliedig ar brint** nad yw wedi'i weld o'r blaen ac **un cynnyrch** mae dysgwyr wedi'i astudio yn yr un ffurf cyfryngau.
- Bydd y cwestiynau yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth a'r gallu i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau.

Adran B: Cerddoriaeth (30 marc)

Bydd yr adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau**, **cynrychioliad**, **diwydiannau'r cyfryngau** a **chynulleidfaoedd**.

- **Un** cwestiwn mewn camau a **dau** gwestiwn unigol.
- Bydd y cwestiynau a osodwyd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth a'r gallu i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau.

2.2 Uned 2

Deall Teledu a Ffilm

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster
60 marc

Trosolwg

Mae Uned 2 yn cynnwys astudiaeth fanwl o ddwy ffurf cyfryngau clyweledol cyferbyniol: teledu Prydain a ffilmiau Hollywood. Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth fanylach o bedwar cysyniad y cyfryngau – **iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd y cyfryngau**. Bydd dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu gallu i ddefnyddio terminoleg berthnasol sy'n benodol i'r pwnc yn yr uned hon.

Adran A: Cymru ar y Teledu

Mae'r adran hon yn cynnwys astudiaeth fanwl o raglen deledu benodol gyda dimensiwn Cymreig – wedi'i chynhyrchu a/neu ei lleoli yng Nghymru a'i thargedu at gynulleidfa Gymreig. Bydd dysgwyr yn archwilio sut mae Cymru fel lle a Chymru fel hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cynrychioli yn yr enghraifft a astudiwyd. Mae gan y rhaglenni a osodwyd arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol o ran eu cynrychioliadau arbennig o'r byd, eu gwerth ariannol i'r diwydiant teledu, a'u poblogrwydd gyda chynulleidfaoedd teledu. Bydd dysgwyr yn ystyried pwysigrwydd cyd-destun diwydiant y rhaglenni a astudiwyd a'r apêl amrywiol y maent yn ei gynnig i gynulleidfaoedd. Felly bydd dysgwyr yn ystyried holl gysyniadau allweddol y cyfrwng yn y testun hwn: iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd.

Bydd dysgwyr yn astudio **un** o'r opsiynau canlynol:

Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4
Gavin & Stacey, cyfres 3, pennod 5: From Billericay to Barry	Weatherman Walking, Cyfres 10, pennod 1: Portmeirion and Dolaucothi	Rownd a Rownd, Pennod 76, (Darlledwyd yn gyntaf 10/11/16)	Pobl Port Talbot, cyfres 1, pennod 1
Darlledwr gwreiddiol: BBC3	Darlledwr gwreiddiol: BBC 1 Wales	Darlledwr gwreiddiol: S4C	Darlledwr gwreiddiol: S4C

Byddwn yn adolygu'r rhaglenni a osodwyd yn rheolaidd ac yn eu diweddarau fel bo'r angen.

Er mwyn datblygu dealltwriaeth eang o berchenogaeth ac ariannu teledu, dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r modelau ariannu gwahanol yn y diwydiant teledu.

Gavin & Stacey yw'r rhaglen gomedi sefyllfa hynod boblogaidd ar y BBC yn seiliedig ar berthynas rhwng Gavin (o Essex) a Stacey (o'r Barri). Darlledwyd yn wreiddiol ar BB3, ond oherwydd cefnogaeth gref ei dilynwy'r ffyddlon ac wrth i lwyddiant y gyfres dyfu, symudodd i BBC2 ac yna i BBC1. Mae apêl cynulleidfa prif ffrwd yn deillio o gonfensiynau comedi sefyllfa traddodiadol oedd yn canolbwyntio ar gymeriadau, perthnasoedd a sefyllfaoedd, ynghyd â naratif llinol ac ymgorffori digwyddiadau arwyddocaol ym mywydau pobl fel priodas Gavin a Stacey.

Mae **Weatherman Walking** yn rhaglen ffordd o fyw / rhaglen ddogfen boblogaidd sydd nawr yn ei degfed gyfres. Mae'n dilyn y dyn tywydd adnabyddus ar y BBC Derek Brockway wrth iddo ymweld â lleoliadau ledled Cymru. Mae'n ymweld â dau le ym mhob pennod ac mae'n cael cwmni trigolion lleol ar deithiau cerdded drwy'r ardal leol. Mae pob pennod yn denu'r gynulleidfa drwy ganolbwyntio ar fanylion hanesyddol amrywiol a chymeriadau lleol nodedig.

Lansiwyd **Rownd a Rownd** yn 1995 fel yr opera sebon Gymraeg gyntaf i dargedu pobl ifanc. Wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru, yn wreiddiol roedd yn canolbwyntio ar rownd bapur ond mae wedi datblygu i gynnwys naratif am yr ysgol a bywyd teuluol, gan adlewyrchu'r genre a'r gynulleidfa darged yn eu harddegau. Mae **Rownd a Rownd** yn rhoi sylw i amrywiaeth o faterion cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys perthnasoedd a materion iechyd. Mae'r opera sebon hon sydd wedi bod yn mynd ers tro yn cael ei darlledu ddwywaith yr wythnos ar S4C.

Mae **Pobl Port Talbot** yn rhaglen ddogfen Gymraeg boblogaidd sydd yn ei chyfres gyntaf ar S4C. Mae'r bennod hon, y gyntaf o dair, yn edrych ar fywyd cymunedol ym Mhort Talbot, yn Ne Cymru. Mae'r gyfres yn archwilio bywydau pobl sy'n byw yn y gymuned ac yn edrych ar sut maen nhw'n byw eu bywydau o ddydd i ddydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dref ddiwydiannol hon.

Hefyd, dylai dysgwyr archwilio agweddau ar-lein eu rhaglen o ddewis.

Rhaid i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agweddau canlynol ar **iaith y cyfryngau** a **chynrychioliad** mewn perthynas â'r rhaglen deledu a astudiwyd:

- sut mae dewis o elfennau iaith y cyfryngau yn llunio cynrychioliadau o le a hunaniaeth ddiwylliannol, gan gynnwys iaith y cyfryngau ar gyfer delweddau symudol fel gwaith camera (pellter, ongl, symudiad), mise-en-scène (sefyllfaoedd, lleoliadau, gwisg, propiau), golygu (golygu dilynol) a sain (sain gynefin, sain anghysefin, sain ôl-cynhyrchu)
- sut a pham y gellir cynrychioli lle a hunaniaeth ddiwylliannol yn wahanol gan ddibynnu ar ddibenion y cynhyrchwyr
- swyddogaethau a defnydd gwahanol stereoteipiau, gan gynnwys dealltwriaeth o sut mae stereoteipiau yn galluogi cynulleidfaoedd i ddehongli'r cyfryngau yn gyflym
- sut a pham ei bod hi'n bosibl fod grwpiau diwylliannol a chymdeithasol penodol wedi'u tangynrychioli neu eu cam-gynrychioli
- sut mae cynrychioliadau yn cyfleu safbwyntiau, negeseuon, gwerthoedd a chredoau penodol
- sut mae cynrychioliadau'n adlewyrchu'r cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a'r diwydiant lle cawsant eu cynhyrchu.

Rhaid i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agweddau canlynol ar **ddiwydiannau'r cyfryngau** a **chynulleidfaoedd**:

- perchenogaeth – sefydliadau'r cyfryngau sydd yn berchen ar deledu ac yn ei reoli
- modelau ariannu ar gyfer teledu, gan gynnwys arian gan y llywodraeth a modelau masnachol
- effaith cydgyfeirio ar y diwydiant teledu
- gwahanol fathau o gynulleidfaoedd ar gyfer teledu, fel cynulleidfaoedd bach, arbenigol, a chynulleidfaoedd mawr, prif ffrwd
- sut mae'r diwydiant teledu yn targedu cynulleidfaoedd drwy farchnata a sut mae rhaglenni wedi'u targedu at gynulleidfaoedd
- rôl technolegau'r cyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, o ran cyrraedd cynulleidfaoedd, ac mewn defnydd cynulleidfa a defnydd o deledu
- sut y gallai cynulleidfaoedd ymateb i deledu a rhyngweithio gyda theledu
- arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol y rhaglenni a astudiwyd:
 - y themâu neu'r materion y maent yn mynd i'r afael â nhw
 - ateb gofynion a dymuniadau
 - y swyddogaethau sydd ganddynt mewn bywyd bob dydd a chymdeithas
- y ffyrdd mae defnydd cynulleidfaoedd o'r cyfryngau yn gysylltiedig â'u hunaniaeth.

Adran B: Ffilmiau Hollywood Cyfoes

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth am sut mae ffilmiau Hollywood yn defnyddio genre a nodweddion naratif i apelio at gynulleidfaoedd yn fyd-eang. Drwy archwilio'r diwydiant ffilm yn fanwl, bydd dysgwyr yn astudio sut mae ffilmiau cyfoes Hollywood yn cael eu cynhyrchu a'u marchnata i gynulleidfaoedd byd-eang, gan ystyried pwysigrwydd llwyfannau ar-lein a'r cyfryngau i'r diwydiant ffilm ac i gynulleidfaoedd ffilm.

Meini prawf ar gyfer dewis cynhyrchion:

- mae'n rhaid i gynhyrchion a ddewisir ar gyfer yr uned hon fod â gofynion priodol ar gyfer TGAU
- mae'n rhaid i bob cynnyrch a astudir alluogi dysgwyr i astudio pob agwedd ar iaith y cyfryngau, diwydiannau a chynulleidfaoedd fel y nodir yn y fanyleb isod
- ni fwriedir i'r enghreifftiau o gynhyrchion priodol a restrir isod fod yn gynhwysfawr nag yn rhagnodol.

Rhaid i ddysgwyr astudio **un** ffilm a wnaed o fewn **deng** mlynedd i ddechrau addysgu'r cymhwyster sydd yn rhan o un o fasnachfreintiau ffilmiau Hollywood. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- masnachfaint *D.C. Universe*
- masnachfaint *Divergent*
- masnachfaint *Jurassic World*
- masnachfaint *Hunger Games*
- masnachfaint *Marvel*
- masnachfaint *Spider-Man*
- masnachfaint *Star Wars*.

Noder: Bydd rhai o'r ffilmiau cyntaf a gynhyrchwyd yn y masnachfreintiau hyn y tu allan i'r **ddeng** mlynedd ofynnol i ddechrau addysgu'r cymhwyster ac **ni** ddylent felly gael eu dewis fel testunau astudio.

Atgoffir canolfannau y bydd CBAC yn gweithredu os bydd unrhyw reolau yn cael eu torri o ran y deunydd astudio a ddewisir gan y dysgwyr. Gallai hyn gynnwys rhybuddio canolfan er mwyn tynnu eu sylw at y rheol sydd wedi'i thorri ac osgoi unrhyw achosion o'r fath rhag codi mewn unrhyw gyfresi arholiad yn y dyfodol.

Rhaid i'r dysgwyr hefyd astudio agweddau allweddol ar farchnata'r ffilm a ddewiswyd, fel poster, rhaghysbysebion a gwefannau.

Rhaid i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agweddau canlynol ar **iaith y cyfryngau** mewn perthynas â'r ffilm a astudiwyd:

- codau a chonfensiynau genre: eiconograffeg, mise en scène, cymeriadau a sêr, gwaith camera, golygu, sain, naratif a themâu
- pwysigrwydd genre i ddiwydiant ffilm Hollywood ac i gynulleidfaoedd ffilm
- naratif:
 - adeiladwaith, strwythur, technegau a chonfensiynau
 - cymeriadau a swyddogaethau cymeriadau, fel arwyr a dihirod, prif gymeriadau a chymeriadau cefnogi, cymeriadau stoc
- apêl a phleser naratif i gynulleidfaoedd ffilm

Rhaid i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agweddau canlynol ar **ddiwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd**:

- perchenogaeth – sefydliadau'r cyfryngau sy'n berchen ar ddiwydiant ffilmiau Hollywood ac yn ei reoli, gan gynnwys perchenogaeth uwch-gwmni, arallgyfeirio ac integreiddio fertigol
- sut mae ffilmiau Hollywood yn cael eu hariannu
- sut mae Hollywood yn gweithredu fel diwydiant masnachol ar raddfa fyd-eang
- effaith cydgyfeirio ar ddiwydiant ffilmiau Hollywood
- effaith prosesau a thechnolegau cynhyrchu ar ffilmiau Hollywood
- rôl technolegau'r cyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, o ran cyrraedd cynulleidfaoedd, ac mewn defnydd cynulleidfa a defnydd o ffilm
- rôl a natur rheoleiddio yn y diwydiant ffilm
- sut mae ffilmiau Hollywood wedi'u targedu at gynulleidfaoedd mawr, byd-eang, prif ffrwd
- y ffyrdd mae diwydiant ffilmiau Hollywood yn targedu cynulleidfaoedd drwy farchnata.

Asesu Uned 2

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu defnydd o derminoleg berthnasol sy'n benodol i'r pwnc yn yr uned hon.

Adran A: Cymru ar y Teledu (30 marc)

Bydd yr adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd.

Rhaid i'r dysgwyr gwblhau:

- **un** cwestiwn mewn camau. Mae rhan olaf y cwestiwn hwn yn gofyn am ymateb estynedig a bydd yn asesu ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd priodol o atalnodi a gramadeg.

Adran B: Ffilmiau Hollywood Cyfoes (30 marc)

Bydd yr adran hon yn asesu gwybodaeth am ddiwydiannau'r cyfryngau, cynulleidfaoedd ac iaith y cyfryngau.

Rhaid i'r dysgwyr gwblhau:

- **un** cwestiwn mewn camau
- **dau** gwestiwn unigol.

2.3 Uned 3

Creu Cyfryngau

Asesu di-arholiad: i'w asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol gan CBAC
40% o'r cymhwyster
80 marc

Cynnwys

Mae'r uned hon yn adeiladu ar ddysgu blaenorol gan ofyn i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cyfryngau drwy gynhyrchiad ymarferol. Yn Unedau 1 a 2, bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth fanwl am iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiant a chynulleidfaoedd mewn perthynas ag amrywiaeth o ffurfiau'r cyfryngau. Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am iaith y cyfryngau, cynrychioliad a chynulleidfa i gynhyrchiad ar gyfer cynulleidfa benodol yn **un** o'r cyfryngau canlynol:

- clyweledol (unigol **neu** mewn parau)
- print (unigol)
- ar-lein (unigol).

Yn ychwanegol at y cynhyrchiad ei hun, bydd dysgwyr yn cwblhau gwaith datblygu (ymchwil a chynllunio) yn ogystal â dadansoddiad myfyriol ar y cynhyrchiad.

Bydd briffiau cynhyrchu'n cael eu gosod yn y ffurfiau cyfryngau canlynol:

- teledu
- cylchgronau
- ffilm
- cerddoriaeth
- hysbysebu.

Bydd pob briff cynhyrchiad yn cynnwys:

- dewis o genre a chyfrwng (clyweledol, print neu ar-lein)
- cynulleidfa darged arfaethedig.

Dylai pob cynhyrchiad gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am:

- sut mae cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion yn cael eu llunio drwy iaith y cyfryngau
- sut mae iaith y cyfryngau yn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa arfaethedig.

Byddwn yn adolygu'r briffiau cynhyrchu yn flynyddol. Hysbysir canolfannau am unrhyw newidiadau i friffiau cynhyrchu **dwy** flynedd academaidd cyn eu hasesu am y tro cyntaf.

Argymhellir fod dysgwyr yn cwblhau eu cynhyrchiad o fewn cyfnod amser o tua **24–28 awr** er mwyn galluogi cydbwysedd priodol rhwng gwaith ar gyfer y cynhyrchiad a'r unedau arholiad.

Atgoffir canolfannau y bydd CBAC yn gweithredu os bydd unrhyw reolau yn cael eu torri o ran y deunydd astudio a ddewisir gan y dysgwyr. Gallai hyn gynnwys rhybuddio canolfan er mwyn tynnu eu sylw at y rheol sydd wedi'i thorri ac osgoi unrhyw achosion o'r fath rhag codi mewn unrhyw gyfresi arholiad yn y dyfodol.

Cynhyrchu

Mae'r **briffiau cynhyrchu** canlynol i'w hasesu am y tro cyntaf yn Haf 2019. Rhaid i ddysgwyr ddewis **un** o'r opsiynau canlynol o **un** o'r ffurfiau cyfryngau a restrir isod:

1. Teledu***Naill ai***

(a) Opsiwn clyweledol (unigol neu bâr)

Cynhyrchwch ddilyniant o raglen deledu newydd mewn genre o'ch dewis sy'n targedu cynulleidfa 18-25 mlwydd oed. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.

Hyd:

- 1 munud 30 eiliad – 2 funud (unigol)
- 2 funud 15 eiliad – 2 funud 45 eiliad (pâr).

Gweler yr adran *Gofynion Eraill* am **rolau** i'w cymryd ar gyfer gwaith cynhyrchu mewn parau.

Neu

(b) Opsiwn ar-lein (unigol)

Cynhyrchwch dudalen gartref a 2 dudalen gysylltiedig arall ar gyfer gwefan i raglen deledu newydd mewn genre o'ch dewis sy'n targedu cynulleidfa 18-25 mlwydd oed. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliad o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.

Hyd:

- 3 tudalen.

2. Cylchgronau***Naill ai***

(a) Opsiwn print (unigol)

Cynhyrchwch dudalen flaen, tudalen cynnwys ac un dudalen ychwanegol ar gyfer cylchgrawn newydd mewn unrhyw genre sy'n targedu pobl ifanc yn eu harddegau. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.

Hyd:

- 3 tudalen.

Neu

(b) Opsiwn ar-lein (unigol)

Cynhyrchwch dudalen gartref a 2 dudalen gysylltiedig eraill mewn unrhyw genre ar gyfer cylchgrawn ar-lein newydd sy'n targedu pobl ifanc yn eu harddegau. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.

Hyd:

- 3 tudalen.

3. Ffilm***Naill ai***

(a) Clyweledol (unigol neu bâr)

Cynhyrchwch ddilyniant o ffilm genre ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd rhwng 18 a 30 mlwydd oed. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.

Hyd:

- 1 munud 30 eiliad – 2 funud (unigol)
- 2 funud 15 eiliad – 2 funud 45 eiliad (pâr).

Gweler yr adran *Gofynion Eraill* am **rolau** i'w cymryd ar gyfer gwaith cynhyrchu mewn parau.

Neu

(b) Print (unigol)

Cynhyrchwch glawr blaen ac ôl ar gyfer DVD a phoster ffilm ar gyfer ffilm genre newydd ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd rhwng 18 a 30 mlwydd oed. Mae'n rhaid defnyddio 3 phrif ddelwedd o leiaf ar gyfer taflen flaen ac ôl y DVD a phoster y ffilm. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.

Hyd:

- 3 tudalen (noder: dylid cyfrif y clawr blaen ac ôl fel un dudalen yr un).

4. Cerddoriaeth

Naill ai

(a) Opsiwn clyweledol (unigol neu bâr)

Cynhyrchwch ddarn o fideo cerddoriaeth ar gyfer band/artist lleol neu newydd heb gytundeb recordio sy'n targedu pobl ifanc yn eu harddegau. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.

Hyd:

- 1 munud 30 eiliad i 2 funud (unigol)
- 2 funud 15 eiliad – 2 funud 45 eiliad (pâr).

Gweler yr adran *Gofynion Eraill* am **rolau** i'w cymryd ar gyfer gwaith cynhyrchu mewn parau.

Noder: Mae'n dderbyniol i ddysgwyr ddefnyddio cân neu drac sy'n bodoli'n barod gan fand neu artist ar gyfer y cynhyrchiad fideo cerddoriaeth, cyhyd â nad oes fideo cerddoriaeth ar gael ac nad yw unrhyw gyfyngiadau hawlfraint yn cael eu torri.

Neu

(b) Opsiwn print (unigol)

Cynhyrchwch wefan ar gyfer band neu artist newydd sy'n anelu at bobl ifanc yn eu harddegau gan gynnwys tudalen gartref a dwy dudalen gysylltiedig. Dylai un o'r rhain gynnwys lluniau llonydd o'u fideo cerddoriaeth ddiweddaraf. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.

Hyd:

- 3 tudalen.

5. Hysbysebu

Naill ai

(a) Opsiwn clyweledol (unigol neu bâr)

*Cynhyrchwch **ddwy** hysbyseb o ymgyrch marchnata ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth newydd (unigol) yn targedu pobl ifanc yn eu harddegau neu **dair** hysbyseb o ymgyrch marchnata ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth newydd (pâr) yn targedu pobl ifanc yn eu harddegau. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.*

Hyd:

- dwy hysbyseb **30-45 eiliad** (unigol)
- tair hysbyseb **30-45 eiliad** (pâr).

Gweler yr adran *Gofynion Eraill* am **rolau** i'w cymryd ar gyfer gwaith cynhyrchu mewn parau.

Neu

(b) Opsiwn print (unigol)

*Cynhyrchwch **dair** hysbyseb cylchgrawn o ymgyrch marchnata ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth newydd sy'n targedu pobl ifanc yn eu harddegau. Mae'n rhaid i'r cynhyrchiad lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig.*

Hyd:

- 3 tudalen (i gynnwys rhwng 25 a 50 gair o gopi gwreiddiol ar draws y 3 hysbyseb ac o leiaf tri phrif lun gwahanol ar draws y tair hysbyseb)

Datblygu Cynhyrchiad

Wrth ddatblygu eu cynhyrchiad, bydd dysgwyr yn cyflawni'r ymchwil a'r cynllunio.

Ymchwil

Bydd dysgwyr yn gwneud ymchwil i'r ffordd mae iaith y cyfryngau yn cael ei defnyddio i sefydlu confensiynau genre, cynrychioliadau a thargedu cynulleidfaoedd penodol. Bydd gofyn i ddysgwyr ddadansoddi **ddau** gynnyrch sy'n gallu cael eu cymharu â chynhyrchiad o'u dewis. Gallai'r dadansoddiad hwn fod ar ffurf anodiadau a/neu nodiadau i gyd-fynd â'r cynnyrch neu, yn achos cynhyrchion delwedd symudol, ymchwilio i enghreifftiau addas o fomentau allweddol o'r cynnyrch. Dylai dysgwyr archwilio'r canlynol:

- confensiynau genre y cynhyrchion
- y materion cynrychioliad a godwyd gan y cynhyrchion
- sut y defnyddir iaith y cyfryngau i dargedu cynulleidfa benodol.

Gan y bydd natur yr ymchwil yn amrywio'n ôl y cynhyrchion a ddewiswyd, mae'r terfynau geiriau wedi'u gosod ar **leiafswm o 250 gair** ac **uchafswm o 500 gair**.

Ar gyfer yr opsiwn print cylchgronau, gall yr ymchwil fod ar ffurf:

- clawr cylchgrawn a thudalen gynnwys o ddau gylchgrawn gwahanol
- clawr cylchgrawn a thudalen ychwanegol o ddau gylchgrawn gwahanol
- tudalen glawr cylchgrawn, tudalen gynnwys a thudalen ychwanegol o ddau gylchgrawn gwahanol.

Cynllunio

Bydd dysgwyr yn defnyddio'r hyn maent wedi'i sefydlu yn ystod y gwaith ymchwil i greu cynllun ar gyfer eu cynhyrchiad. Bydd y cynllun hwn ar un o'r ffurfiau canlynol:

- bwrdd stori (opsiynau clyweledol)
- dyluniad drafft fesul tudalen (opsiynau print/ar-lein), gan ddefnyddio meddalwedd briodol, sy'n dangos sut y defnyddir iaith y cyfryngau i sefydlu confensiynau genre a chynrychioliadau, ac apelio at y gynulleidfa arfaethedig.

Nid oes angen delweddau gwreiddiol ar gyfer cynllunio a gellir defnyddio delweddau y cafwyd hyd iddynt fel enghraifft.

Dadansoddiad Myfyriol

Bydd dysgwyr yn dadansoddi ac yn gwerthuso eu cynhyrchiad mewn perthynas â'r **ddau** gynnyrch y maent wedi ymchwilio iddynt. Bydd y dadansoddiad myfyriol yn amlygu'r defnydd o gysyniadau'r cyfryngau yng nghynrychiadau dysgwyr drwy ganolbwyntio ar y canlynol:

- sut mae confensiynau genre allweddol wedi'u hymgorffori yn eu cynhyrchiad
- mater cynrychioliad a godwyd gan y cynhyrchiad
- sut y defnyddir confensiynau genre a nodweddion allweddol eraill i dargedu'r gynulleidfa benodol.

Anogir dysgwyr i ddewis a chanolbwyntio ar elfennau allweddol y cynhyrchiad, gan wneud cymariaethau rhwng y cynhyrchion y maent wedi ymchwilio iddynt yn unigol a'u cynhyrchiad cyflawn nhw eu hunain.

Mae'n rhaid i'r gwaith fod ar ffurf wedi'i airbrosesu a gellir cynnwys lluniau eglurhaol (er enghraifft ciplun sgrin neu ddelweddau). Y terfyn geiriau yw **500 gair** i **750 gair**.

Gofynion Eraill

Cynhyrchiad annibynnol a chydweithredol

Mae'n rhaid i'r holl gynyrchiadau fod yn unigol ac eithrio cynyrchiadau clyweledol. Ar gyfer **cynyrchiadau clyweledol**, gall dysgwyr weithio yn unigol neu mewn parau mewn rolau wedi'u nodi'n glir: **bydd un dysgwr yn gyfrifol am y gwaith camera a bydd y dysgwr arall yn gyfrifol am olygu, gan gynnwys sain**. Yn ogystal â hynny, gall cynorthwyyr nad ydynt yn cael eu hasesu weithredu'r offer goleuo a sain os oes angen sain a goleuo annibynnol, a hynny dan gyfarwyddyd y dysgwr (dysgwyr) sy'n cael eu hasesu. Gall cynorthwyyr eraill nad ydynt yn cael eu hasesu ymddangos mewn cynyrchiadau, er enghraifft fel actorion neu fodelau. Mae'n rhaid i'r holl waith arall fod yn unigol fel sydd wedi'i nodi isod.

Gwaith clyweledol cydweithredol: ymchwilio, cynllunio a dadansoddi myfyriol

Pan fo dysgwyr yn bwriadu cydweithio ar gynhyrchiad clyweledol, dylent wneud gwaith ymchwil, cwblhau bwrdd stori a dadansoddi a gwerthuso'r cynhyrchiad yn unigol drwy ei gymharu, er enghraifft, gyda'r cynhyrchion maen nhw eu hunain wedi ymchwilio iddynt. Yna, dylai dysgwyr ddewis un o'r ddau fwrdd stori i'w wireddu yn eu cynhyrchiad cydweithredol neu gallant ddewis gwneud gwaith cynllunio ychwanegol nad yw'n cael ei asesu. Lle mae dysgwyr wedi ymgymryd â rolau unigol mewn cynhyrchiad clyweledol cydweithredol, mae'n rhaid i'w dadansoddiad myfyriol werthuso pob agwedd ar y cynhyrchiad (gwaith camera, golygu a sain) yn hytrach na'u maes technegol eu hunain.

Deunydd gwreiddiol a deunydd nad yw'n wreiddiol

Mae gofyn i ddysgwyr greu deunydd gwreiddiol ar gyfer y cynhyrchiad ei hun, er y gellir defnyddio deunydd y cafwyd hyd iddo yn y broses gynllunio. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn angenrheidiol cynnwys delweddau neu recordiad nad ydynt yn wreiddiol ac y cafwyd hyd iddynt, er enghraifft lle mae confensiynau'r genre yn cynnwys defnyddio deunydd y cafwyd hyd iddo neu le y byddai'n amhosibl neu na fyddai'n ymarferol i gynhyrchu'r ddelwedd neu'r recordiad (e.e. saethiad o ffrwydrad neu olygfa gefndir o diffeithdir). Mewn achosion o'r fath, gellid defnyddio deunydd wedi'i ganfod ar yr amod nad yw'n brif ganolbwynt i'r cynnyrch a'i fod yn cael ei ddefnyddio fel llun neu ddeunydd ffilm ategol yn unig. Mae defnyddio delweddau neu recordiad nad yw'n wreiddiol wedi'i gyfyngu i:

- 15 eiliad o recordiad y cafwyd hyd iddo mewn cynnyrch clyweledol neu gynnyrch ar-lein
- 1 llun cefndirol y cafwyd hyd iddo fesul tudalen brint neu gynnyrch ar-lein.

Ni ellir asesu delweddau a recordiadau nad ydynt yn wreiddiol. Gellir gwobrwyo dysgwyr am **ddethol** delweddau neu recordiad priodol, ond nid am **greu'r** ddelwedd neu'r recordiad. Mewn cynhyrchion print, fel cefndir yn unig y dylid defnyddio delweddau y cafwyd hyd iddynt; mewn cynhyrchion clyweledol mae'n rhaid i recordiad y cafwyd hyd iddo fod yn ychwanegol at y terfyn amser (e.e. gallai cynhyrchiad teledu 2 funud o hyd gael 15 eiliad o recordiad y cafwyd hyd iddo, sef cyfanswm o 2 funud, 15 eiliad). **Marciau hyd at ben uchaf band 2 yn y meini prawf marcio yn unig y gellir eu dyfarnu i ymgeiswyr nad ydynt yn defnyddio recordiad, delweddau neu destun gwreiddiol ar gyfer y rhan fwyaf o'u cynhyrchiad.**

Deunydd â hawlfraint

Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau nad yw dysgwyr yn torri cyfyngiadau hawlfraint.

- Ni chaniateir defnyddio brandiau a chynhyrchion sy'n bodoli'n barod.
- Bydd unrhyw ddeunydd y cafwyd hyd iddo yn cael ei ddefnyddio yn ôl risg y ganolfan a'r ymgeisydd eu hunain.

Yn y canllawiau hyn, fel nodwyd uchod, mae'n dderbyniol i ddysgwyr ddefnyddio cân neu drac sy'n bodoli yn barod gan fand neu artist ar gyfer yr opsiwn **cynhyrchiad fideo cerddoriaeth**, ar yr amod *nad* oes gan y trac a ddewiswyd fideo yn barod. Gall dysgwyr hefyd ddewis cydweithio gydag adrannau neu ddysgwyr cerddoriaeth i greu cerddoriaeth wreiddiol i'w defnyddio mewn cynyrchiadau.

Offer/Meddalwedd

Mae angen i ddysgwyr allu manteisio ar offer ac adnoddau addas ar gyfer eu gwaith cynhyrchu.

Ar gyfer gwaith clyweledol, argymhellir defnyddio camerâu digidol a meddalwedd golygu digidol. Caniateir defnyddio ffonau symudol ar gyfer cynhyrchiadau os ydynt wedi'u gosod ar drybedd. Nid yw offer sain a golau annibynnol yn angenrheidiol ond gellir eu defnyddio.

Mae'n rhaid rhestru'r pecynnau meddalwedd a ddefnyddir wrth greu'r cynhyrchiad y cyfryngau ar y dudalen flaen gydag esboniad byr o sut maent wedi cael eu defnyddio. Bydd yr aseswr yn ystyried y wybodaeth hon wrth farcio pob cynhyrchiad. Ni fwriedir i ddysgwyr greu gwefan gan ddefnyddio cod. Fodd bynnag, dylent fod yn gyfrifol am ddylunio'r wefan a dylent ddefnyddio templedi plaen. Lle mae gorddibyniaeth wedi bod ar dempledi sy'n bodoli'n barod, bydd hyn yn arwain at ddyfarnu marc is.

Asesu Uned 3

Asesir Uned 3 yn fewnol a'i safoni'n allanol gan ddefnyddio'r gridiau asesu yn Atodiad A y fanyleb hon. 80 yw cyfanswm y marciau sydd ar gael, sy'n cael eu dyrannu fel a ganlyn:

- **ymchwilio i ddau** gynnyrch sy'n gallu cael ei gymharu â'r cynhyrchiad (10 marc, AA3)
- **cynllunio** ar gyfer y cynhyrchiad (10 marc, AA3)
- **cynhyrchiad** (50 marc, AA3)
- **dadansoddiad myfyriol** (10 marc, AA2).

Mae Amcanion Asesu AA2 ac AA3 wedi'u nodi yn adran 3.1 isod.

Mae'n rhaid i athrawon ddefnyddio'r grid asesu a'r canllawiau a ddarperir yn Atodiad A wrth gynnal asesiad mewnol Uned 3. Cawsant eu llunio er mwyn cyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu perthnasol â marciau a helpu i wahaniaethu'n glir rhwng yr amrywiol lefelau cyflawniad. Bydd y cynlluniau marcio o'r gwerth mwyaf pan fyddant yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r canllawiau ac enghreifftiau o waith wedi'u hasesu, y bydd CBAC yn eu darparu er mwyn helpu canolfannau i nodi ansawdd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marcio amrywiol.

Gweler adran 3.2 i gael manylion pellach ar:

- yr amodau ar gyfer cwblhau'r cynhyrchiad
- tystiolaeth asesu a dilysu
- llên-ladrad a chamymddwyn honedig
- safoni a chyflwyno marciau.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i'r dysgwyr:

AA1

Ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau

AA2

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau i

- ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau
- gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain

AA3

Ymchwilio, datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau astudio'r cyfryngau i gyflew ystyr.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	10%	20%	-	30%
Uned 2	20%	10%	-	30%
Uned 3	-	5%	35%	40%
Pwysoli cyffredinol	30%	35%	35%	100%

3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Yr amodau ar gyfer cwblhau'r cynhyrchiad

Gall y cynhyrchiad gael ei gwblhau a'i asesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs.

Hyd/cyfanswm y gwaith

- Bydd gofynion penodol o ran hyd neu gyfanswm y gwaith yn cael eudarparu yn y briff.
- Nid oes cosb am waith sydd yn llai na'r terfynau amser a hyd a nodwyd, gan ei fod yn debygol o fod yn hunan-gosbi. Mae goddefiant o 10% ar gyfer gwaith sydd dros y terfynau amser a hyd a nodwyd. Os yw cynhyrchiad yn fwy na'r terfynau o dros 10%, ni ddylai'r athro/aseswr farcio'r gwaith ychwanegol a gyflwynwyd y tu hwnt i'r terfyn hwn, gan mai am y gwaith sydd yn y terfynau amser a hyd a nodwyd yn unig y gellir gwobrwyd ymgeiswyr.

Goruchwylio a Monitro

- Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod amser y gall dysgwyr ei dreulio ar ddatblygu a chreu eu cynhyrchiad ar gyfer Uned 3.
- Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion y briff a osodwyd, y grid asesu a'r grid marcio.
- Gall athrawon gynghori dysgwyr ar friff priodol neu ffurf y cyfryngau i'w ddewis.
- Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol ar yr hyn i'w wella. Ni ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn. Er y gellir rhoi cefnogaeth dechnegol ar sut i ddefnyddio offer ac lechyd a Diogelwch, ni chaniateir cyngor yn ymwneud ag elfennau fel apêl i'r gynulleidfa arfaethedig neu ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau'r cyfryngau.
- Yn ystod y cyfnod gweithio, mae'n rhaid i athrawon fonitro cynnydd y cynhyrchiad deirgwaith er mwyn gallu dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun.
- Ar ôl i'w gwaith gael ei wneud a'i asesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith.

Tystiolaeth Asesu a Dilysu

Mae'n bwysig bod gwaith asesu'n cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith y dysgwyr eu hunain ydyw. Mae gofyn i bob dysgwr lofnodi dogfen ddilysu ar y dudalen flaen sy'n cadarnhau mai ei gwaith nhw eu hunain yw'r gwaith a rhaid i'r canolfannau lofnodi i gadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Mae'n rhaid i bob dysgwr gwblhau'r dogfennau dilysu, nid y rhai sy'n cael eu dewis ar gyfer y sampl i'w weld gan y safonwr yn unig.

Fel nodwyd yn adran 2.3 (Uned 3), mae'n rhaid i bob dysgwr gynhyrchu a chyflwyno'r canlynol:

1. Tudalen flaen

Bydd yr athro a'r dysgwr yn lofnodi datganiad dilysu sydd wedi'i gynnwys ar y dudalen flaen.

2. Cynhyrchiad y cyfryngau (gan gynnwys ymchwil, cynllunio a dadansoddi myfyriol)

Bydd pedair elfen cynhyrchiad y cyfryngau i gyd yn cael eu cyflwyno:

- ymchwil
- cynllunio
- cynhyrchu
- dadansoddi myfyriol.

Noder: mae'n rhaid i ddysgwyr nodi eu henw, rhif ymgeisydd, enw'r ganolfan a rhif y ganolfan yn glir ar holl elfennau eu gwaith cynhyrchu.

Mae'n rhaid i'r holl eitemau uchod fod ar gael i'w safoni ac mae'n rhaid cyflwyno'r gwaith cynhyrchu i'r safonwr yn y ffurfiau canlynol:

- deunydd clyweled - wedi'i lwytho i fyny fel e-bortffolio drwy wefan ddiogel CBAC yn un o'r ffurfiau canlynol: MP4, .MOV neu .AVI
- deunydd seiliedig ar brint - wedi'i lwytho i fyny fel e-bortffolio drwy wefan ddiogel CBAC yn un o'r ffurfiau canlynol: PDF, JPEG
- deunydd ar-lein – mae'n rhaid i wefannau fod ar gael ar-lein am gyfnod cyfan y cymedroli a hyd at fis Rhagfyr yn y flwyddyn galendr y safwyd yr asesiad. Rhaid profi pob cyswllt i gadarnhau ei fod yn gweithio. Rhaid rhoi'r URL (cyfeiriad gwe) i'r cymedrolwr ar y daflen glawr a gyflwynir gyda'r gwaith.
Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod pob gwefan a gyhoeddir ar-lein yn cyfateb i reoliadau GDPR, a bod mesurau priodol wedi'u dilyn i ddiogelu hunaniaeth dysgwyr a chyfranogwyr heb eu hasesu.

Llên-ladrad a chamymddwyn honedig

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- cyfrifoldeb cychwynnol y ganolfan yw unrhyw achosion o lôn-ladrad neu gamymddwyn honedig.
- os bydd y ganolfan neu'r broses safoni yn datguddio unrhyw achos o gamymddwyn neu lôn-ladrad honedig, bydd ymchwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal, gan ddilyn gweithdrefnau'r Cyd-gyngor Cymwysterau.
- gellir tynnu'r marciau naill ai am yr uned neu'r cymhwyster cyfan yn ôl os gwelir fod camymddwyn neu lôn-ladrad wedi digwydd.

Safoni a chyflwyno marciau

- Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau ar-lein erbyn y dyddiad a nodwyd ym mis Mai bob blwyddyn. Bydd sampl safoni yn seiliedig ar drefn restrol gyffredinol y cofrestriad cyfan yn cael ei gynhyrchu'n awtomatig pan fydd marciau'n cael eu cyflwyno, ac mae'n rhaid anfon y sampl at y safonwr i gyrraedd erbyn y dyddiad a nodwyd ym mis Mai bob blwyddyn.
- Y ganolfan sy'n pennu'r dyddiad cwblhau mewnol a rhaid i'r ganolfan ystyried yr amser sydd ei angen ar gyfer asesiad mewnol, safoni mewnol a chyflwyno marciau i CBAC.
- Defnyddir tudalennau blaen unigol, sydd ar gael ar wefan CBAC, ar gyfer cofnodi marciau i'w hanfon at y safonwr. Rhaid i'r canolfannau gadw copïau o bob taflen farciau a anfonwyd at y safonwr.
- Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei gymedroli'n fewnol. Dilyniir y drefn hon er mwyn sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon gytunedig ar gyfer pob grŵp addysgu o dan sylw.
- Mae'n rhaid i'r holl waith a dogfennaeth gysylltiedig ar gyfer dysgwyr yn y sampl gael eu cyflwyno i'r safonwr erbyn y dyddiad penodol ym mis Mai.
- Mae'r holl ddogfennaeth angenrheidiol i'w chael ar wefan CBAC.
- O ganlyniad i'r safoni, gall marciau dysgwyr gael eu haddasu fel bod marciau'r ganolfan yn unol â'r safon genedlaethol. Os bydd angen, bydd y safonwr yn gofyn am samplau ychwanegol o waith ac, os yw'n angenrheidiol, gellir gofyn am waith pob dysgwr a safoni gwaith pob un ni waeth beth fo nifer yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, anfonir y gwaith i gyd at y safonwr.
- Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl am y safoni ym mis Awst.
- Dylai pob darn o waith nad yw'n cael ei gyflwyno i CBAC gael ei gadw gan y ganolfan tan ddiwedd mis Hydref y flwyddyn ardystio.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid cwblhau'r holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn Haf 2019.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol).

Nodir y codau cofrestru isod.

Teitl y cymhwyster	Codau cofrestru	
	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
TGAU CBAC Astudio'r Cyfryngau	3680QS	3680CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

ATODIAD A

Uned 3: Creu Cyfryngau – Asesu

Cynllun Marcio

Canllawiau ar Gymhwyso'r Gridiau Asesu

- Dylid penderfynu ar y band priodol ar gyfer pob rhan o'r amcan asesu drwy bennu pa ddisgrifyddion perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid penderfynu ar y marc priodol drwy bennu **i ba raddau** mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf yn y band perthnasol** – wedi bodloni'n **llwyr** (rhan uchaf y band), wedi bodloni'n **ddigonol** (rhan ganol y band), bodloni rhywfaint (rhan isaf y band).
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer pob colofn adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws rhannau gwahanol o'r amcan asesu. Er enghraifft, gall ymgeiswyr gyflawni band 4 ar gyfer colofn 1 a band 5 ar gyfer colofn 2.
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u llunio i gynorthwyo'r broses farcio trwy nodi lefelau unigol o gyflawniad ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau gradd.

Ymchwil a Chynllunio		
AA3 (10%): Ymchwilio a datblygu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau.		
Band	Ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau.	Datblygu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau.
5	9-10 marc - Gallu ardderchog i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r ymchwil yn hynod berthnasol a phriodol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn wych.	9-10 marc - Gallu ardderchog i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r cynllunio yn hynod berthnasol a phriodol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn wych.
4	7-8 marc - Gallu da i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r ymchwil yn berthnasol a phriodol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn dda.	7-8 marc - Gallu da i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r cynllunio'n berthnasol a phriodol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn dda.

3	5-6 marc - Gallu boddhaol i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil yn berthnasol a phriodol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn foddhaol.	5-6 marc - Gallu boddhaol i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r rhan fwyaf o'r cynllunio yn hynod berthnasol a phriodol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn foddhaol.
2	3-4 marc - Gallu sylfaenol i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r ymchwil yn rhannol berthnasol a phriodol. - Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn sylfaenol.	3-4 marc - Gallu sylfaenol i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r cynllunio'n rhannol berthnasol a phriodol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn sylfaenol.
1	1-2 marc - Gallu cyfyngedig iawn i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae perthnasedd ymchwilio'n gyfyngedig a gallai fod yn anghyflawn. - Mae'r wybodaeth a'r dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig iawn.	1-2 marc - Gallu cyfyngedig iawn i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae perthnasedd cynllunio'n gyfyngedig a gallai fod yn anghyflawn. - Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig iawn.
	0 marc Nid yw'r ymchwil yn haeddu credyd.	0 marc Nid yw'r cynllunio yn haeddu credyd.

Cynhyrchu <i>Ni ddylid dyfarnu marciau uwch na band 2 i ymgeiswyr nad ydynt yn defnyddio recordiad, delweddau neu destun gwreiddiol ar gyfer y cynhyrchiad.</i>		
AA3 (25%): Creu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, drwy ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau i gyfleu ystyr.		
Band	Defnyddio iaith y cyfryngau i gyfleu ystyron a llunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion mewn cynhyrchiad y cyfryngau yn y ffurf a'r genre a ddewiswyd.	Cynhyrchu cynhyrchiad y cyfryngau sy'n cyfleu ystyr i <i>gynulleidfa arfaethedig</i>
5	25-30 marc - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau mewn ffordd wych a chyson. - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion mewn ffordd wych a chyson. - Mae confensiynau'r genre neu'r ffurf yn cael eu cymhwyso mewn ffordd hynod briodol a llawn dychymyg. - Sgiliau technegol a chreadigrwydd ardderchog.*	17-20 marc - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn briodol iawn i'r gynulleidfa arfaethedig. - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gallu ardderchog i ddefnyddio iaith y cyfryngau i gyfleu ystyr i'r gynulleidfa arfaethedig. - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn creu cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig mewn ffordd hynod briodol.
4	19-24 marc - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau mewn ffordd dda a chyson ar y cyfan. - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion mewn ffordd dda a chyson. - Mae confensiynau'r genre, arddull neu ffurf yn cael eu cymhwyso mewn ffordd effeithiol. - Sgiliau technegol a chreadigrwydd da.*	13-16 marc - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn briodol i'r gynulleidfa arfaethedig. - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gallu da i gymhwyso iaith y cyfryngau i gyfleu ystyr i'r gynulleidfa arfaethedig. - Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn creu cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig mewn ffordd briodol.

3	13-18 marc • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau mewn ffordd foddhaol. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion mewn ffordd foddhaol. • Mae confensiynau'r genre, arddull neu ffurf yn cael eu cymhwyso mewn ffordd briodol ar y cyfan. • Sgiliau technegol a chreadigrwydd boddhaol.*	9-12 marc • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn briodol i'r gynulleidfa arfaethedig ar y cyfan. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gallu boddhaol i ddefnyddio iaith y cyfryngau i gyfleu ystyr i'r gynulleidfa arfaethedig. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn creu cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig mewn fforddbriodol ar y cyfan.
2	7-12 marc • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau mewn ffordd sylfaenol, anghyson. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion mewn ffordd sylfaenol, anghyson. • Mae confensiynau'r genre, arddull neu ffurf yn cael eu cymhwyso, ond mewn ffordd sylfaenol, anghyson. • Sgiliau technegol a chreadigrwydd sylfaenol.*	5-8 marc • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn rhannol briodol i'r gynulleidfa arfaethedig. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gallu sylfaenol i ddefnyddio iaith y cyfryngau i gyfleu ystyr i'r gynulleidfa arfaethedig. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn creu cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig mewn ffordd sylfaenol, anghyson.
1	1-6 marc • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau mewn ffordd gyfyngedig. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth o lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau a materion mewn ffordd gyfyngedig iawn. • Mae confensiynau'r genre, arddull neu ffurf yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig, gan ddangos sgiliau technegol a chreadigrwydd cyfyngedig. • Sgiliau technegol a chreadigrwydd cyfyngedig iawn.*	1-4 marc • Nid yw cynhyrchiad y cyfryngau yn briodol i'r gynulleidfa arfaethedig. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gallu cyfyngedig i ddefnyddio iaith y cyfryngau i gyfleu ystyr i'r gynulleidfa arfaethedig. • Mae cynhyrchiad y cyfryngau yn creu cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig mewn ffordd gyfyngedig.
	0 marc Nid yw'r cynhyrchiad yn haeddu credyd.	

*** Canllawiau dangosol ar y sgiliau technegol sy'n sail i ddefnydd o iaith y cyfryngau**

Mae'r canlynol yn nodi'r sgiliau technegol sy'n gysylltiedig â phob cyfrwng. Cymhwyswch y disgrifyddion band canlynol i'r meini prawf penodol i'r cyfrwng a restrir isod.

Band 5 – Ardderchog, rhugl a chyson, hynod briodol a dychmygus

Band 4 – Da, rhugl, cyson ac effeithiol ar y cyfan

Band 3 – Boddhaol, priodol a chyson ar y cyfan

Band 2 – Sylfaenol, anghyson, amhriodol yn aml

Band 1 – Cyfyngedig ac anghyflawn.

Cynhyrchion cyfryngau Sain / Gweledol

Camera

- fframio a chyfansoddi, gan gynnwys amrywiaeth briodol o saethiadau a mathau o saethiadau (gan gynnwys pellter, hyd, ongl, symudiad).
- mae'r saethiadau'n sefydlog (defnyddio trybedd lle bo'n briodol), ac mewn ffocws.

Golygu

- dilyniant (neu dechnegau gwahanol e.e. montage os yw'n briodol), gwneud ystyr yn glir, trawsnewidiadau priodol i gyfleu ystyr
- rhai effeithiau ôl-gynhyrchu lle'r oedd yn briodol

Sain

- defnyddio sain gynefin a sain anghysefin i gyfleu ystyron (e.e. effeithiau sain, trac sain, deialog)
- mae ansawdd y sain yn glir

Mise-en-scène

- lleoliad, set/propiau, gwisgoedd ac ati i gyfleu ystyron.

Cynhyrchion print

Creu delweddau/ffotograffau priodol

- fframio, ffocws, cydraniad, goleuo a defnyddio mise-en-scène

Trin delweddau

- tocio, ailfeintio, haenu

Dangos sgiliau o ran cyfansoddi a gosod

- amrywiaeth briodol o arddulliau/meintiau ffont a defnyddio lliw

Defnyddio iaith yn briodol i'r ffurf a'r gynulleidfa

- dulliau cyfarch – uniongyrchol/anuniongyrchol/ffurfiol/anffurfiol
- amrywio tôn yn unol â llwyfan (e.e. efallai y bydd rhifyn ar-lein o gylchgrawn yn llai ffurfiol na rhifyn print) a chynulleidfa.

Cynhyrchion ar-lein

Creu cynnwys priodol

- delweddau/ffotograffau/cynnwys fideo/testun

Dangos sgiliau o ran cyfansoddi a gosod

- amrywiaeth briodol o arddulliau/maint ffont, defnyddio lliw

Defnyddio iaith yn briodol i'r ffurf a'r gynulleidfa

- dulliau cyfarch – uniongyrchol/anuniongyrchol/ffurfiol/anffurfiol

Sgiliau technegol/TG wrth greu gwefan/cynnwys digidol sy'n gweithio

- nodweddion rhwyngweithiol.

Dadansoddiad Myfyriol	
Band	AA2 (5%): Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau i werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain.
5	9-10 marc - Gallu ardderchog i werthuso'r defnydd o gysyniadau yn eu gwaith ymarferol eu hunain. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am iaith y cyfryngau, cynrychioliad, a chynulleidfaoedd yn wych. - Cyflew syniadau'n hynod effeithiol.
4	7-8 marc - Gallu da i werthuso'r defnydd o gysyniadau yn eu gwaith ymarferol eu hunain. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am iaith y cyfryngau, cynrychioliad, a chynulleidfaoedd yn dda. - Cyflew syniadau'n effeithiol.
3	5-6 marc - Gallu boddhaol i werthuso'r defnydd o gysyniadau yn eu gwaith ymarferol eu hunain yn foddhaol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am iaith y cyfryngau, cynrychioliad, a chynulleidfaoedd yn foddhaol. - Cyflew syniadau'n glir.
2	3-4 marc - Gallu sylfaenol i werthuso'r defnydd o gysyniadau yn eu gwaith ymarferol eu hunain, ond mewn ffordd anghyson. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd yn sylfaenol. - Gallu sylfaenol i gyfleu syniadau.
1	1-2 marc - Gallu cyfyngedig iawn i werthuso'r defnydd o gysyniadau yn eu gwaith ymarferol eu hunain. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am iaith y cyfryngau, cynrychioliad a chynulleidfaoedd yn gyfyngedig iawn. - Gallu cyfyngedig iawn i gyfleu syniadau.
	0 marc Nid yw'r dadansoddi myfyriol yn haeddu credyd.